# Hunaniaeth Ddiwylliannol 2

# Gweithgareddau Dilynol Estynedig i Athrawon

Mae'r gweithgareddau'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 3 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 oed yng Nghymru.

| **Amrywiaeth Gweithgaredd dilynol** | **Cysylltiadau â'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 oed yng Nghymru** | |
|---|---|---|
| | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgareddau Rhagarweiniol i Baratoi | • Defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrio personol | ▪ Datblygu agweddau cadarnhaol tuag atynt eu hunain ac eraill |
| 2. Diwylliant Gang | • Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau digroeso gan gyfoedion | • Deall sut i adnabod a herio'n effeithiol fynegiannau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio |
| 3. Agweddau/ Gweithredoedd Eithafol | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i egluro cysylltiadau rhwng achos a chanlyniadau<br>• Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol<br>• Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau cytbwys yn effeithiol | • Deall sut i adnabod a herio'n effeithiol fynegiannau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio<br>• Datblygu mewnwelediad i'w gwerthoedd<br>• Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br>• Dangos sensitifrwydd i werthoedd pobl eraill<br>• Gwerthfawrogi y dylanwadir ar weithredoedd a safbwyntiau pobl gan eu gwerthoedd |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Gweithgareddau Cyfreithlon ac Anghyfreithlon | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau cytbwys yn effeithiol<br>• Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | • Deall yr hyn y maent hwy'n credu sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a'r dilemâu moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd<br>• Deall yr hyn y maent yn ei gredu yng nghyd-destun credoau yn y gymdeithas |
| 5. Cynllunio Ymgyrch | • Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol | • Deall materion amserol ar lefel leol a byd eang<br>• Deall sut y gall pobl ifanc leisio'u barn a dylanwadu ar y broses o wneud perderfyniadau |
| 6. Stori Joe | • Gwneud a chadw cyfeillgarwch a dechrau ymdrin ag ymddygiad mewn perthynas bersonol<br>• Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau digroeso gan gyfoedion<br>• Datblygu a defnyddio amrediad o strategaethau i reoli tymer a datrys gwrthdaro | • Deall sut i adnabod a herio'n effeithiol fynegiannau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio<br>• Deall yr hyn y maent hwy'n credu sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a'r dilemâu moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd |
| 7. Bod yn Fi | • Nodi ac asesu rhagfarn a dibynadwyedd e.e. gwerthuso negeseuon | • Gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth a chydraddoldeb cyfle yn lleol, cenedlaethol a byd-eang |


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
HEDDLU POLICE

| | | |
|---|---|---|
| | gan y cyfryngau<br>• Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau digroeso gan gyfoedion | • Deall sut i adnabod a herio'n effeithiol fynegiannau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio<br>• Deall materion cyfoes lleol a byd-eang |

**Beth yw eithafiaeth?**

Mae'r testun hwn yn un heriol i athrawon ymdrin ag ef yn y dosbarth. Mae angen gwirioneddol i sicrhau cydbwysedd wrth drafod materion sensitif megis eithafiaeth mewn ABCh. Cyfrifoldeb yr athro/athrawes yw rhoi mwy o amlygrwydd i farn wahanol os yw safbwynt y dosbarth yn gyffredinol yn unochrog neu'n gul.
Cynigir y canlynol fel diffiniad o eithafiaeth:

> *Mae'n golygu bod â barn neu weithredu mewn modd y gellid ei ystyried yn eithafol.*
> *Gall fod yn unigolyn, grŵp neu gasgliad o bobl sy'n credu neu'n gweithredu mewn modd sy'n mynd y tu hwnt i'r arfer derbyniol.*

Yn dilyn ceir casgliad o weithgareddau a syniadau gwersi a fydd yn caniatáu i faterion yn ymwneud ag eithafiaeth yn ei ystyr ehangaf gael eu trafod yn agored.

**1. Gweithgareddau Rhagarweiniol i Baratoi**

Nod y canlynol yw darparu gweithgareddau dechrau neu ddosbarth cyfan byr er mwyn cynorthwyo i feithrin hunan-barch a hyrwyddo gwaith tîm.

**1a Cylch papur (Hybu hunan-barch)**

Mewn grwpiau o 4 rhowch ddalen o bapur A4 i bob disgybl a gofynnwch iddynt ysgrifennu eu henw ar y brig. Gofynnwch i bob disgybl basio eu darn papur i'r chwith, bydd y person hwnnw wedyn yn ysgrifennu rhywbeth cadarnhaol am y disgybl cyntaf. Parhewch o amgylch y grŵp nes y bydd y papur yn dychwelyd i'r person â'i enw arno. Yna bydd gan y disgyblion dri sylw cadarnhaol amdanynt eu hunain.

**1b Gêm Cyfrif i 10 (Hybu gwaith tîm)**

Mewn grwpiau, heb gyfathrebu gyda'i gilydd mewn unrhyw ffordd, gofynnir i'r disgyblion geisio cyfrif i 10. Os bydd dau berson yn gweiddi rhif yr un pryd rhaid iddynt ddechrau eto.

**1c Amser cylch**

Mewn parau mae A yn dweud ffaith gadarnhaol am ei hun wrth B a B yn gwneud yr un peth yn ôl. Disgyblion yn adrodd yn ôl i'r dosbarth.

**1d Unigolion ydym ni i gyd**

Rhannwch y dosbarth yn barau. Rhowch ddalen gwestiynau 'Wyddoch Chi?' (1d) i bob pâr

Gofynnwch i bob pâr ystyried y cwestiynau o ran eu hunain, ond nid eu trafod eto. Dylai Partner A ofyn y cwestiynau a dylai Partner B ddyfalu'r ateb y byddai Partner A yn ei roi. Yna dylai Partner A roi ei atebion. Ailadroddwch y broses hon gyda Partner A yn dyfalu atebion Partner B. Pan fyddant wedi gorffen gofynnwch i'r disgyblion faint o atebion cywir a gawsant. Trafodwch oblygiadau hyn gyda'r dosbarth.

- Ni allwch dybio rhywbeth dim ond drwy edrych ar rywun.
- Mae pawb y wahanol, ni allwch stereoteipio unigolion.
- Nid yw sut mae person yn edrych yn diffinio person, ei gymeriad a'i natur sy'n gwneud hynny.

**1e Cwisiau gwir/gau (Fel sesiwn dosbarth cyfan neu sesiwn ddechrau)**

Ysgrifennwch y datganiadau canlynol ar y bwrdd. Gall athrawon ychwanegu datganiadau tebyg a allai fod o ddiddordeb lleol neu benodol i'r disgyblion. Mewn grwpiau mae'n rhaid i ddisgyblion benderfynu a yw pob un yn wir neu gau. Os ydynt yn meddwl eu bod yn GAU, maent yn ysgrifennu beth maent hwy'n feddwl sy'n wir.
E.e. Mewnfudwyr yw pobl sy'n symud rhwng gwledydd - GWIR
Mae rhyddid i lefaru yn golygu y gallaf ddweud beth bynnag ydw i eisiau yn gyhoeddus - GAU
Ni allaf fod yn hiliol na difrifol heb dorri'r gyfraith - GAU
Trafodwch a rhoi adborth i'r dosbarth.

**<u>2 Diwylliant Gang</u>**

Heriwch y dosbarth i grwpio eu hunain yn ôl mis eu geni. Yna gofynnwch i'r disgyblion ail-grwpio eu hunain gan ddefnyddio ei dewis eu hunain o feini prawf. (E.e. taldra; maint esgidiau; lliw llygad; lliw gwallt; drws ffrynt glas; gwell ganddynt gathod, cŵn; te; coffi ac ati). Gofynnwch i bob grŵp roi adborth.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Pa feini prawf wnaethoch chi ddefnyddio i grwpio eich hunain?
Ydych chi'n gweld eich grŵp fel gang posibl?

Canfyddiad o gangiau
Mewn grwpiau bach gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r ddalen waith map meddwl 'Nodweddion Gang' (2a)

***Nodiadau athrawon:***
Gallai atebion a awgrymir gynnwys y canlynol:
Lleoliad
Dillad
Chwaeth e.e. cerddoriaeth
Diddordebau e.e. sglefrfyrddio, cefnogwyr pêl -droed
Rhyw
Barn
Crefydd
Ethnigrwydd
Cenedligrwydd

Pan fydd y map meddwl wedi ei gwblhau gofynnwch i'r grŵp ddewis llefarydd i adrodd yn ôl y syniadau i'r dosbarth cyfan. Rhowch ddarn o bapur i bob grŵp a gofynnwch iddynt ysgrifennu eu diffiniad eu hunain o gang. Arddangoswch y diffiniadau hyn yn yr ystafell ddosbarth.

Rhowch set o 12 ffotograff (2b) i'r disgyblion. Gofynnwch iddynt eu rhoi mewn trefn 1-12 yn ôl sut maent yn canfod y grŵp. - gweler y continwwm enghreifftiol isod

**Gang** ⟵⟶ **Dim yn gang**

A yw'r bobl yn y llun yn gang neu ddim yn gang? Gan ddefnyddio'r un lluniau cwblhewch yr ail linell continwwm fel y dangosir isod

**Threatening** ⟵⟶ **Not a threat**

A yw'r grwpiau yn fygythiol neu ddim yn fygythiad? Gofynnwch i'r disgyblion drafod: Beth sy'n gwneud y grŵp yn fygythiol? Disgyblion i roi adborth i'r grŵp cyfan. (Darperir ffrâm siarad (2c) fel cefnogaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion)

Dull arall yw paratoi copi o'r cardiau 'gang' a 'dim yn gang' a chardiau 'bygythiol' a 'dim yn fygythiad' ac arddangoswch hwy ym mhen blaen y dosbarth (2d). Gofynnwch i'r disgyblion gytuno ar safle pob un o'r ffotograffau ar hyd y continwwm gang/dim yn gang yn gyntaf. Gofynnwch i'r disgyblion eu hail-drefnu ar hyd y continwwm bygythiol/dim yn fygythiad. Trafodwch unrhyw wahaniaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mewn grwpiau gofynnwch i'r disgyblion ddewis y llun mwyaf bygythiol ac ateb y cwestiynau canlynol: Beth yw'r peryglon posibl o fod yn y gang yma? Fyddech chi am fod yn aelod o'r gang yma? Sut allech chi ymwrthod rhag dod yn aelod o'r gang yma? (gallai'r athro/athrawes ddatblygu'r drafodaeth ynglŷn â phwysau cyfoedion). Rhowch

adborth a thrafodwch y cwestiynau gyda'r dosbarth cyfan.

Yn olaf, gofynnwch i'r disgyblion gyfeirio'n ôl at ddiffiniad o gang a grëwyd yn gynharach a, chan wybod yr hyn y maent yn ei wybod nawr, gofynnwch i bob grŵp ail-ysgrifennu diffiniad o gang. Edrychwch i weld a oes unrhyw farn wedi newid a thrafodwch. Adborth i'r dosbarth cyfan.

## 3.1 *Agweddau eithafol*

Mae cyflwyniad PowerPoint (3a) wedi ei ddarparu i gefnogi'r gweithgaredd.
Sefydlwch ddealltwriaeth y disgyblion o'r 3 term canlynol (mae un sleid PowerPoint (3b) ar gael i'w harddangos yn y dosbarth)

FFOADUR - Person sy'n dianc o'i wlad oherwydd ofn cael ei erlid am resymau crefyddol, cenedlaethol, barn wleidyddol neu aelodaeth grŵp cymdeithasol, trychineb naturiol neu ryfel

CEISIWR LLOCHES – Person sy'n aros i gael ei dderbyn gan lywodraeth gwlad

MEWNFUDWR – Person sy'n gadael un lle i fyw mewn lle arall

Mewn grwpiau bach o 3 neu 4; dosbarthwch y cardiau trafod (3c). Gofynnwch i'r disgyblion drafod y 12 datganiad a'u gosod ar gontinwwm fel y dangosir isod. Neu fe allai pob grŵp edrych ar nifer llai o ddatganiadau a'u trafod mewn rhagor o fanylder. Bydd y continwwm yn amrywio o Cytuno ar un pen i Anghytuno ar y pen arall. Defnyddiwch y cardiau cytuno / anghytuno (3d). Gwnewch y disgyblion yn ymwybodol y bydd yn rhaid iddynt drafod eu penderfyniadau gyda grŵp arall o ddisgyblion, ac felly rhaid talu sylw.

**Cytuno** ⟷ **Anghytuno**

Efallai y bydd angen i'r disgyblion ddefnyddio ffrâm siarad (3e). Wedi iddynt gwblhau'r dasg, gofynnwch i ddau ddisgybl gyfnewid gyda dau ddisgybl mewn grŵp arall ac egluro pam eu bod wedi rhoi'r datganiadau yn y mannau y gwnaethant ar y continwwm.

Dosbarth Cyfan
Dewiswch un neu ragor o'r datganiadau a gofynnwch i'r disgyblion 'Beth ydych chi'n feddwl fyddai'r canlyniadau pe gwnaed hyn yn gyfraith?'
Yna gellid rhestru ymatebion y disgyblion yn ganlyniadau cadarnhaol a negyddol ar gyfer y wlad a bydd trafodaeth dosbarth cyfan yn dilyn.


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
HEDDLU POLICE

### 3.2 Gweithredoedd Eithafol

Mewn grwpiau bach o 3 neu 4, gofynnwch i'r disgyblion drafod y 11 llun (3f) a roddir a'u rhoi ar y continwwm fel y dangosir isod. Bydd y continwwm yn ymestyn o '***Rhy eithafol*** ar un pen i '***Derbyniol*** ar y pen arall. Defnyddiwch y cardiau rhy eithafol / derbyniol (3g). Gwnewch y disgyblion yn ymwybodol y bydd yn rhaid iddynt drafod eu penderfyniadau gyda grŵp arall o ddisgyblion, ac felly rhaid talu sylw.

**Rhy eithafol** ←————————————————→ **Derbyniol**

Efallai y bydd angen i'r disgyblion ddefnyddio ffrâm siarad. (3e) Wedi iddynt gwblhau'r dasg, bydd dau ddisgybl yn cyfnewid gyda dau ddisgybl mewn grŵp arall ac egluro pam eu bod wedi rhoi'r datganiadau yn y mannau y gwnaethant ar y continwwm.

Dangoswch y cyflwyniad PowerPoint (3h) o luniau gweithgarwch eithafol. Tafodwch bob llun a gwnewch y disgyblion yn ymwybodol o beth mae pob llun yn ei ddangos. Mae nodiadau athrawon ar gael ar y dewis nodiadau PowerPoint.

Dosbarth Cyfan

Gofynnwch i'r dosbarth 'Ym mha un o'r digwyddiadau hyn ydych chi'n meddwl fod y gyfraith wedi ei thorri?' A gofynnwch i'r grwpiau roi'r lluniau mewn dau bentwr cyfreithlon/anghyfreithlon. (3i) Trafodwch fel dosbarth benderfyniadau'r disgyblion. Trafodwch gyda'r dosbarth pan fydd mwyafrif cymdeithas yn credu bod ymddygiad/gweithredu o fath arbennig yn annerbyniol, gall cyfraith newydd gael ei chyflwyno.

### 4. Gweithgareddau Cyfreithlon ac Anghyfreithlon

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch set o gardiau didoli (4a) i bob grŵp a gofynnwch iddynt rannu'r gweithredoedd yn weithgareddau cyfreithlon ac anghyfreithlon.

Gweithgareddau cyfreithlon

1. Ymchwil ar y rhyngrwyd
2. Cyngor ysgol
3. Trafodaeth/ cyfarfod
4. Ymgyrch poster
5. Ysgrifennwch erthygl i'r wasg
6. Gwrthdystiad heddychlon
7. Protest fud
8. Deunydd hyrwyddo

9. Arwyddio deiseb
10. Ysgrifennwch lythyr at eich AS

Gweithgareddau anghyfreithlon

1. Gwrthdystiad anheddychlon
2. Bomio/Terfysgaeth
3. Rhwystro'r ffordd
4. Dringo adeiladau
5. Graffiti
6. Ymddygiad bygythiol
7. Llythyr bygythiol
8. Byrgerliaeth
9. Rhyddhau anifeiliaid caeth
10. Bombardio gwefan mewn ymgais i'w chau

Gan ddefnyddio'r PowerPoint (4b) gofynnwch i'r dosbarth adrodd yn ôl a chywirwch unrhyw gamsyniadau. Cyflwynwch y syniad o lle gellir tynnu'r llinell rhwng protestio rhesymol ac eithafiaeth. Trafodwch y gall protest effeithiol ddigwydd drwy weithgaredd cyfreithlon. Pam y gall hyn mewn gwirionedd fod yn fwy effeithiol na dulliau eithafol o brotestio? E.e. newid eich gwisg ysgol drwy drafodaeth a chytundeb yn eich Cyngor Ysgol.

**5. Cynllunio Ymgyrch**

**Gallai'r gweithgaredd hwn gael ei fabwysiadu i'w ddefnyddio gyda dysgwyr 14 i 19 oed sy'n astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch ffotograff i bob grŵp. (5a) Gofynnwch i bob grŵp astudio'r ffotograff ac ystyried y materion a ddangosir yno. Gofynnwch iddynt ystyried

- Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
- Ydy hyn yn eich ysgogi i wneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa?
- Beth allech chi ei wneud?

Gofynnwch i'r dosbarth adrodd yn ôl gan ddefnyddio PowerPoint (5b) .
Gan ddefnyddio rhai o'r gweithredoedd a awgrymwyd gan y disgyblion, hwyluswch drafodaeth bod rhai gweithgareddau'n gyfreithlon tra bod eraill yn anghyfreithlon.

Mewn grwpiau gofynnwch i'r disgyblion ddewis mater sydd o ddiddordeb arbennig iddynt hwy. Efallai y byddwch am gyfeirio at becyn dwyieithog yr NSPCC y gellir ei gael ar-lein o www.nspcc.org.uk/inform/resourcesforteachers/classroom resources/change_something_wda66524.html Gofynnwch i bob grŵp ddewis un neu

ragor o dechnegau ymgyrchu i gynllunio ymgyrch ynglŷn â'r mater a ddewiswyd ganddynt gan ddefnyddio'r technegau hynny. (Cyfeiriwch ar y rhestr gynharach o weithgareddau cyfreithlon). Rhowch ddalen siart fflip neu ddarn o bapur i bob grŵp. Gan ddefnyddio'r papur siart fflip, gofynnwch iddynt nodi'r pwyntiau canlynol:

- Nod yr ymgyrch - beth yr ydych yn ceisio ei gyflawni?
- Y targed ar gyfer eu hymgyrch - ar bwy ydych chi'n ceisio dylanwadu?
- Y technegau a ddewisir ar gyfer eich ymgyrch - pa dechnegau ydych chi wedi eu dewis a sut fyddwch chi'n eu defnyddio?
- Effaith eich ymgyrch - pa effaith ydych chi'n ddisgwyl ei gael? Sut fyddwch chi'n gwybod os ydych wedi ei gyflawni?

Gofynnwch i'r grwpiau adrodd yn ôl ac ym mhob achos adolygu a ydynt yn meddwl bod y technegau a ddewiswyd yn gyfreithlon ac a ydynt yn gwneud niwed i unrhyw un? Gellid cynnal ymarferiad tebyg – Cynllunio Ymgyrch – ynglŷn â mater lleol y mae'r disgyblon yn teimlo'n gryf yn ei gylch. Yna gallai'r disgyblion gyflwyno eu hymgyrch i ddisgyblion eraill yn eu grŵp blwyddyn mewn gwasanaeth neu ddigwyddiad addas arall.

| Awgrymiadau ar gyfer ymgyrchoedd addas: | |
|---|---|
| Hawl i bleidleisio yn 16 oed | Erthyliad |
| Hela llwynogod | Profi ar anifeiliaid |
| Rhoi organau | Creulondeb i anifeiliaid |
| Newid hinsawdd | ASBO |
| Crogi / y gosb eithaf | Gyrru cerbyd yn 16 |
| Gwahardd ysmygu | lawrlwytho cerddoriaeth/ffilmiau |
| Taro plant | Gwahardd alcohol tan 21 oed |
| Gwahardd ysmygu ym mhob man cyhoeddus (tu allan) | |

**<u>6. Stori Joe</u>**

Arddangoswch luniau (6a) o wahanol gasgliadau o bobl e.e. nyrsys, beicwyr, sglefrfyrddwyr, cefnogwyr pêl-droed, ac ati.
Trafodwch – beth ydym yn ei weld? Pam fod pobl yn ffurfio grwpiau? Sut mae pobl yn dod yn rhan o grŵp?

Gofynnwch i'r disgyblion ddidoli'r cardiau geiriau (6b) yn agweddau

cadarnhaol      negyddol      niwtral      o fod mewn grŵp.

Ychwanegwch ragor o enghreifftiau o drafodaeth ddosbarth.
Gofynnwch i'r disgyblion wrando ar Stori Joe (6c) yn cael ei darllen - stori ynglŷn â


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
HEDDLU POLICE

sut y mae person ifanc yn cael ei dynnu i mewn i grŵp o eithafwyr. Neu, chwaraewch y DVD gyda'r teitl Stori Joe (6d) i'r dosbarth. Ar adegau priodol gofynnwch i'r dosbarth:

- Beth sy'n digwydd?
- Pa ddewisiadau sydd gan Joe?
- Ydych chi'n anghyfforddus gydag unrhyw beth sy'n digwydd?
- Ar ba adeg mae Joe yn torri'r gyfraith?
- Pryd mae Joe yn dod yn eithafwr?

**(6c) Stori Joe**

Alla'i ddim credu bod hyn yn digwydd i fi. Fi, Joe Woods. Hyd at 6 mis yn ôl, fyddwn i prin yn dweud bw na be wrth unrhyw un, bob amser yr un tawel y byddai'r plant caled yn pigo arno, nawr yn eistedd mewn cell heddlu. Sut aeth pethau gymaint o chwith? Pam na wnes i weld yr arwyddion rhybudd?

Dechreuodd yn fuan wedi i Mam farw. Doedd gan Dad fawr o amser i fi, roedd naill ai'n y gwely neu'n gorweddian ar y soffa yn gwylio'r teledu gyda can o Stella. Ambell i ddiwrnod fe fyddwn i'n dod o hyd iddo yn y dafarn. Fe ddes i arfer gyda fy nghwmni fy hun.

Roedd gwyliau ysgol bob amser mor ddiflas - hyd fis Gorffennaf diwethaf. Gallaf gofio'n glir y diwrnod y gwnes gwrdd â Sully. Roedd e'n cicio'i sodlau wrth siop Spar yn aros am rywun. Roedd e ychydig yn hŷn na fi, tua pymtheg oed, ond roedd e'n gyfeillgar iawn – cynigodd ffag i fi a dweud ei fod yn cwrdd â'r gweddill yn ddiweddarach. Fe wnes i esgus fy mod innau'n cwrdd â rhywun hefyd, ond roeddwn i'n gwybod yn y bôn nad oedd yn fy nghredu.

Wrth i'r amser fynd rhagddo dechreuais gael hwyl. Roedden nhw - Sully, Mickey a Tim yn llawer o hwyl, er nad oedden ni'n gwneud llawer, roeddwn i'n teimlo'n rhan o'r grŵp. Roeddwn i'n perthyn. Weithiau fe fydden ni'n cicio pêl yr oedden ni wedi ei dwyn oddi wrth blentyn llai, neu'n aros o gwmpas y siopau yn disgwyl i bobl fynd heibio er mwyn gweiddi arnyn nhw. Roedd Mickey yn wych am gael pethau i fwyta i ni pan oedden ni eisiau bwyd. Ni chafodd erioed ei ddal – roedd e'n fentrus iawn. Roedd fy nhŷ i yn lle gwych i fynd pan fyddai'n bwrw glaw gan nad oedd neb yno i'n poeni ni. Os bydden ni'n lwcus gallem ddwyn peth o fodca Dad. Fe fyddai merched wastad o gwmpas – yn arbennig os byddai Tim yno. Roedd ganddo bopeth – roedd e'n olygus, yn gwisgo'r dillad iawn ac yn hyderus.

Weithiau byddai ei frawd Taz yn ymuno â ni. Roedd e'n hollol wahanol i Tim. Roedd creithiau ar ei wyneb ac roedd ganddo drwyn cam a oedd yn edrych fel petai wedi torri fwy nag unwaith. Roedd ei freichiau a'i goesau cyhyrog yn blastar o datŵs. Tua ugain oed oedd e, byth yn edrych fel petai'n gweithio'n rheolaidd ond roedd ganddo ddigon o arian bob amser. Weithiau fe fyddai'n prynu smôcs neu ddiod i ni os bydden ni'n glanhau ei gar neu fynd ar neges iddo. Unwaith fe anfonodd Tim, Sully a fi i gasglu

parsel gan rywun yr oedd yn ei adnabod.
Wrth i ni gyrraedd y fflat cefais deimlad rhyfedd. Roedd y lolfa'n llawn dynion hŷn a phob un yn edrych yn debyg i Taz. Fe wnaethon nhw ein hanwybyddu ni i ddechrau, yn edrych fel petaent wrthi'n brysur yn trefnu rhywbeth. Yna dyma un y gweiddi "Ewch â'r plant allan". Ond pan ddywedwyd enw Taz stopiodd weiddi. Roeddwn i'n falch mai dim ond am ychydig funudau oedden ni yno.
Dros y pythefnos nesaf ni welais fy ffrindiau gan fod Dad a finnau wedi mynd i aros gyda'i chwaer ym Manceinion.  Roedd hi mor ddiflas yno. Roedd fy nghefndryd, yr oeddwn i'n arfer eu hoffi, fel petaent wedi troi'n bobl ddiflas iawn. Roeddwn i'n colli'r hwyl gyda'r gang ac yn methu aros i fynd adref a'u gweld nhw i gyd - hyd yn oed Taz!
Pan gyrhaeddais yn ôl roedd pethau wedi newid ychydig. Roedd Taz fel petai'n treulio mwy o amser gyda ni, ac roedd e'n berson iawn. Mwy nag y gallwn ddweud am Mickey oedd wedi mynd a gadael y grŵp heb ddweud dim wrth neb. Fyddai neb yn siarad amdano a doedd e byth yn ateb fy negeseuon o gwbl. Gydag amser daeth Taz yn wir ffrind i fi. Fe fyddai'n gwrando arna'i ac yn rhoi cyngor i mi pan fyddai gen i broblem a dysgodd e fi sut i chwarae pŵl yn dda.  Roeddwn i'n teimlo'n grêt pan wahoddodd e fi i ymuno â'i ffrindiau ar gyfer marathon pŵl mewn tref gyfagos.  Golygai hynny gael lifft gan un o'i ffrindiau yn ei Land Cruiser.  Dyna i chi beiriant, du i gyd, yn cynnwys y ffenestri.
Ar y ffordd i'r gêm pŵl fe ddes i ddeall eu bod yn gefnogwyr Spurs brwd. Cefnogwr Chelsea oeddwn i wedi bod erioed, ond roeddwn i yn y lleiafrif felly cadwais yn dawel. Wrth yrru ar hyd y ffyrdd byddai ambell i sylw fel... 'dyna un arall'....'mae angen i ni wneud mwy'.....'Pryd mae'r cyfarfod nesaf?'.....
Feddylies i ddim am y peth, ond roeddwn i'n wyliadwrus o'r dyn oedd yn eistedd yn y blaen gyda'r gyrrwr. Fyddai e ddim yn ymuno fawr ddim yn y sgwrs ond roedd hi'n ymddangos mai fe oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r sylwadau. Roedd ganddo hefyd lawer o datŵs gydag un Nazi digon od ar ei wegil.
Yn ystod y gêm pŵl roedd llawer o sgwrsio nad oeddwn i'n ddeall. Gwnaeth Taz yn siŵr fy mod i'n iawn a sicrhau'r grŵp fy mod yn ddibynadwy ac y gellid fy nhrystio. Roeddwn i'n teimlo'n fwy aeddfed na gyda gang Sully ac roeddwn i wrth fy modd pan gefais wahoddiad arall i chwarae pŵl. Dros yr wythnosau canlynol fe fyddwn yn eu gweld ar y rhan fwyaf o'r diwrnodau.  Hyd yn oed pan ddechreuodd yr ysgol ym mis Medi fe fyddwn i'n sleifio allan am awr fach neu'n eu gweld wedi'r ysgol.
Y 'cyfarfod' cyntaf yr es i iddo oedd un yn ystafell gefn tafarn leol. Yno, gyda grŵp arall o ddynion, y cyflwynwyd fi go iawn i hiliaeth. Mae'n debyg fy mod wedi cael amheuon wythnosau ynghynt ond wedi dewis eu hanwybyddu. Yn ystod y cyfarfod dosbarthwyd taflenni gydag enwau a chyfeiriadau siopau a busnesu eraill a oedd yn eiddo i bobl 'nad oedd yn wyn'. Y syniad oedd rhannu'r dref yn dair ardal a byddai pob aelod o'r grŵp yn gyfrifol am ardal arbennig. Byddai hyn yn golygu graffiti ac elfennau eraill o fandaliaeth i ddechrau.  Cefais fy rhoi gyda Taz a dyn arall o'r enw Stew. Roedd gennym bump bwyty, pedair siop a golchdy i gymryd 'gofal ohonynt'. Roeddwn i'n gwybod fy mod yn rhan o rywbeth difrifol ond roedd y chwistrell o adrenalin yn ystod y cynllunio yn cydio ynoch. Roedd y peth yn wallgo.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
HEDDLU POLICE

Ewch ymlaen sawl mis o dargedu'r busnesau hyn. Fe fyddwn i'n arlunio neu'n ysgrifennu ar eu ffenestri a'u waliau yn nhywyllwch y nos.
Taz oedd yr 'arbenigwr' ar frawychu'r perchnogion a Stew oedd y prif drefnydd, yn cynllunio'r cam nesaf.
Aeth popeth o'i le yn ystod un ymweliad â siop cornel. Penderfynodd Taz fynd yn gas gyda'r perchennog a dechreuodd ffrwgwd. Allai Stew a finnau ddim ei adael ar ei ben ei hun ac aethom i'w helpu. O gornel fy llygad gwelais fetel yn sgleinio ac yna roedd gwaed. Y funud nesaf roedden ni'n gwibio i fyny'r llwybr ger y siop.
Roedd llawer o sgrechian, gweiddi a seirens, ac mae'r gweddill, fel mae nhw'n dweud, yn hanes.

Wedi gwrando ar, neu wylio, Stori Joe, gofynnwch i'r disgyblion mewn parau i feddwl a ydynt hwy wedi gwneud unrhyw beth y maent yn edifar amdano? (DS. Byddwch yn ymwybodol bod angen diogelu disgyblion rhag gwneud datgeliadau personol amhriodol yn y dosbarth). Beth allent fod wedi ei wneud yn wahanol? Meddyliwch yn ôl i stori Joe ac ystyriwch, 'Pa air o gyngor fyddech chi'n ei roi i Joe?'

Gweithgaredd ychwanegol
Mewn grwpiau gofynnwch i'r disgyblion restru enghreifftiau o gymaint â phosibl o grwpiau eithafol gwahanol y maent wedi clywed amdanynt. Gan ddefnyddio gwahanol erthyglau papur newydd ar amrywiaeth o grwpiau eithafol trafodwch:

- Beth mae'r grŵp yn ei gredu?
- Sut maent wedi dangos ymddygiad eithafol?
- Sut gallent fod wedi protestio'n wahanol heb weithredu'n anghyfreithlon?

## 7. DVD 'Bod yn Fi'

Mae DVD 'Bod yn Fi' (7a) yn ganlyniad cydweithio rhwng Heddlu De Cymru a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn Abertawe. Mae'n cyflwyno barn pobl ifanc Moslimaidd ac yn ysgogi trafodaeth ynglŷn â materion megis:

- anwybodaeth, bwlio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- sut deimlad ydyw i fod yn Fwslim ifanc yng Nghymru
- Credoau Moslimiaid

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch nodyn 'post-it i bob pâr. Gofynnwch i'r disgyblion drafod a gorffen y datganiad canlynol:

***Rwy'n credu ........***
Gall y gweithgaredd hwn greu amrywiaeth eang o ymatebion y gellir eu harchwilio gyda chwestiynu ac adborth gofalus. Dyma rai enghreifftiau o beth allai gael ei ddweud:
'Rwy'n credu y bydd Cymru'n ennill Cwpan y Byd'.
'Rwy'n credu y byddaf yn ennill y loteri rhyw ddiwrnod!'

‘Rwy’n credu y dylai pob anifail gael ei amddiffyn.’
‘Rwy’n credu bod gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel.’ - ac yn y blaen.

Wedi gorffen gellir arddangos y nodiadau ‘post-it’ mewn grwpiau o gredoau tebyg ar y bwrdd. Yna gofynnwch i’r dosbarth ***"A yw’r hyn yr ydych yn ei gredu yn bwysig i chi?"***

Cyflwynwch DVD ‘Bod yn Fi’ drwy ofyn i’r disgyblion ystyried a ydynt erioed wedi teimlo eu bod wedi eu cau allan - nad oeddent yn perthyn e.e. mynd i ysgol newydd. Trafodwch sut deimlad fyddai hynny. Eglurwch fod y DVD yn dangos sut y mae Moslimiaid ifanc yn teimlo am eu bywydau a’u credoau a dangoswch y DVD i’r dosbarth (10 munud). Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch gwestiwn trafod i bob grŵp (7b).

1. **Pa fath o broblemau mae’r bobl ifanc yn eu hwynebu?**
2. **Pam fod rhai o’r bobl ifanc a holwyd yn anhapus?**
3. **Pa gyngor fyddech chi’n ei roi i’r bobl ifanc yn y DVD?**
4. **Pam ydych chi’n meddwl ei bod yn bwysig cael cred grefyddol?**
5. **Pam fyddai’n ddefnyddiol gwybod am fywyd Mwslim ifanc?**
6. **Sut gall Moslimiaid ifanc ddeall rhai nad sy’n Foslimiaid yn well?**
7. **Sut gall pobl ifanc sydd ddim yn Foslimiaid ddeall Moslimiaid yn well?**

Gofynnwch i’r grwpiau roi adborth i’r dosbarth. Cwblhewch y drafodaeth drwy ofyn i’r disgyblion awgrymu ffyrdd y gall pobl ifanc o bob crefydd a diwylliant weithio i ddeall ei gilydd yn well. Rhowch yr awgrymiadau ar y bwrdd ac adolygwch.